# Adnodd 2d. **Jellibean a Surferboi (Canllaw Athro)**

Surferboi: Welais i dy lun proffil - neis! *(Mae'n cael sylw trwy ganmol)*

Jellibean diolch ydw i'n nabod ti?

Surferboi Dwi'n nabod Matt…welais i ti ar ei restr ffrindiau *(Rhoi sicrwydd trwy ddweud ei fod yn ffrind i ffrind)*

Jellibean cŵl

Surferboi pam bod ni'n dau tu mewn? *(Gwneud cysylltiad yn seiliedig ar weithgarwch rhwng y naill a'r llall)*

Jellibean diflas

Suferboi dim ffrindiau? *(Holi i weld os yw hi'n hawdd i'w hynysu)*

Jellibean newydd symud yma

Surferboi lle mae yma? *(Cadarnhau ei lleoliad)*

Jellibean Abertawe

Suerferboi o ble? *(Canfod mwy o wybodaeth gefndir – uniaethu â hi*

Jellibean Llundain *trwy gydnabod ei bod yn mynd trwy newid).*

Suferboi newid mawr

Jellibean dwi'n colli Llundain yn barod

Surferboi Ti'n hoffi'r môr? *(Cynllunio ar gyfer cwrdd yn barod)*

Jellibean methu nofio *(Cadarnhau rheswm i gwrdd)*

Surferboi Alla i dy ddysgu di *(Cynnig cyfeillgarwch a chefnogaeth)*

Jellibean 'swn i'n anobeithiol

Surferboi Paid a bod yn wirion, fyddet ti'n wych, mae tonnau da ar draeth Caswell.

*(Gwenieithio hi a holi i weld ble mae hi'n byw)*

Jellibean ddim yn bell oddi wrtha'i

Surferboi Dwi'n byw yn y ddinas - 'swn i wrth fy modd yn byw'n agosach at y môr *(Mân siarad yn creu cysylltiad cymdeithasol)*

Jellibean Dwi'n casáu'r tywod – caru'r ddinas – Amy ydw i gyda llaw *(Mae hi'n dweud ei henw)*

Surferboi Sam ydw i. Faint yw dy oed? *(Holi am oedran)*

Jellibean 13. Beth amdanat ti? *(Nid yw'n datgelu ei oedran)*

Surferboi NA – ti'n edrych yn llawer hŷn yn dy luniau. Hoffi'r un ohonot ti a dy frawd…gobeithio ma dy frawd yw e! *(Mwy o wenieithio, holi am y llun)*

Jellibean Be ti'n feddwl?

Surferboi Cariad

Jellibean dim cariad – rhaid mae mrawd i yw e



Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

| | |
|---|---|
| Surferboi | chi'n ffrindiau? *(Cadarnhau a fydd hi'n debygol o gyfathrebu â'i brawd)* |
| Jellibean | na mae'n boen – mae'r holl deulu'n boen! |
| Surferboi | ydy e'n mynd i'r un ysgol a ti? *(Ceisio creu cysylltiad pellach a chael mwy o wybodaeth bersonol)* |
| Jellibean | ydy |
| Surferboi | Pa ysgol? |
| Jellibean | Bishopston |
| Surferboi | Cŵl. Mae mrawd i yn y flwyddyn uwchben a ma hynny'n boen *(Ceisio creu cysylltiad)* |
| Jellibean | Pam? |
| Surferboi | Mae bach o swot a dwi'n fachgen drwg. Byddet ti lot rhy dda i fi - ti mewn byd gwahanol |
| Jellibean | Cau dy ben!! |
| Surferboi | Ti'n gorjys...a...methu credu bod rhywun arall yn fyw sy'n caru Rocky Road cymaint â fi!! |
| Jellibean | Ha ha...dyw'r rhan fwyaf o bobl ddim yn darllen y proffil – da iawn ti! *(Mae hi wrth ei bodd gyda'i sylw)* |
| Surferboi | Nes i – Rocky Road am byth! |
| Jellibean | Dwi'n hoffi e gyda hufen iâ – lysh yn y tywydd poeth 'ma |
| Surferboi | Ti'n dal yr haul? Anfona lun *(Cael gwybodaeth fwy bersonol, symud tuag at gyfathrebu rhywiol)* |
| Jellibean | …Ti di cael e' eto? |
| Surferboi | Do – ti'n lysh! *(Mwy o wenieithio ynghylch ei hansicrwydd)* |
| Jellibean | Casau fy nghoesau |
| Surferboi | No wê – ti'n hollol lysh – waw fyddet ti'n edrych yn grêt mewn bicini *(Nawr mae'n gwneud y cyfathrebu ynglŷn â'i chorff)* |
| Jellibean | Dwi methu nofio cofia |
| Surferboi | Ie beth am y gwersi yna – dwi ddim ond 30 munud i ffwrdd - gawn ni gwrdd? *(Ceisio gwneud cyswllt)* |
| Jellibean | Ddim yn siŵr |
| Surferboi | o .. o'n i'n meddwl bod ni'n dod ymlaen yn dda iawn - ydwi'n gwastraffu fyn amser? *(Mae'n dylanwadu ar ei hemosiynau* |
| Jellibean | Na ti ddim...dwi jest *Mae bron wedi llwyddo i'w chael i gytuno i gwrdd ag ef).* |



Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019